



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYHOEDDIAD 50: wythnos 29/12/2021

Cynnydd Wythnosol (20 - 29 Rhagfyr)

Diolch am eich amynedd ac am fynychu apwyntiadau pan fyddwn yn eich galw

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

#HelpuNiHelpuChi

Diolch yn fawr i'n timau brechu am weithio dros Wyliau'r Banc i gynnig cynifer o frechiadau Atgyfnerthu Covid-19 â phosibl. Mae ein timau canolfannau brechu wedi gweinyddu'r nifer uchaf erioed o ddosau atgyfnerthu, gyda'r tîm yng Nghanolfan Casnewydd yn brechu dros 2,500 o bobl y dydd a'r tîm yn Stadiwm Cwmbrân yn brechu dros 2,000 o bobl y dydd.

Ym mis Ionawr, byddwn yn anfon llythyrau at bawb sydd wedi colli eu hapwyntiadau ddos Atgyfnerthu, ac yn cynnig apwyntiadau ail ddos i bobl ifanc 12-15 oed a gafodd eu dos cyntaf o leiaf 12 wythnos yn ôl (ym mis Hydref). Gwnewch bob ymdrech i fynychu ar eich amser penodedig.

CYNNYDD BRECHIAD ATGYFNERTHU

(hyd at 10pm, 28/12/2021)

GRŴP	CYFANSWM	% O BOBLOGAETH
80 oed a hŷn	25,558	88.5%
75-79 oed	21,105	89.1%
70-74 oed	29,032	88.7%
65-69 oed	28,374	86.9%
60-64 oed	31,499	83.1%
55-59 oed	35,819	79.6%
50-54 oed	33,187	74.7%
40-49 oed	45,936	60.7%
30-39 oed	33,424	40.0%
18-29 oed	25,842	30.0%
Eithriadol o fregus yn glinigol	7,006	47.7%
Grwpiau mewn perygl	49,574	72.3%

Gall menywod beichiog fynychu ein canolfannau brechu heb apwyntiad ar gyfer unrhyw un o'u brechiadau



GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

#HelpuNiHelpuChi

Os ydych dros 20 wythnos yn feichiog, ewch i flaen y ciw, rhowch gwobd i staff eich bod chi yno a chewch eich blaenoriaethu.

Ewch i'n gwefan am fanylion ein Canolfannau Brechu:
<https://bipab.gig.cymru/coronafeirws/brechlyn-ar-gyfer-covid-19/ein-canolfannau-brechlu/>



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.

Cwestiynau Cyffredin Brechiad Atgyfnerthu Covid-19

Pa bryd fyddai i'n cael fy mrechriad atgyfnerthu?

Mae'r Canolfannau Brechu Torfol, ynghyd â llawer o Feddygfeydd Teulu, yn gweithio ochr yn ochr i gynnig dosau Atgyfnerthu i breswylwyr erbyn 31 Rhagfyr 2021. Cewch restr o Bractisiau MT sydd yn cymryd rhan yn y ddarpariaeth brechiad Atgyfnerthu [yma](#).

Ni allaf ddod i'm hapwyntiad gan fod gen i Covid - beth ddylwn i ei wneud?

Os ydych wedi dal Covid-19 yn ddiweddar ac yn hŷn na 18, bydd angen i chi aros am 28 diwrnod cyn cael eich brechiad atgyfnerthu. Llenwch [y ffurflen](#) hon i ganslo eich apwyntiad a gwneud cais am apwyntiad i gael ei anfon atoch yn ei le. Gallwn wirio ar ein system i ganfod y dyddiad y gwnaethoch brofi'n bositif ac ailosod apwyntiad unwaith y byddwch yn gymwys eto.

Nid wyf wedi cael brechiad dos cyntaf, a gaf i gerdded i mewn i ganolfan frechu?

Cewch, gall unrhyw un dros 12 oed nad ydynt wedi derbyn y cynnig i gael brechiad Covid-19 gerdded i mewn i unrhyw un o'n canolfannau brechu yn ystod eu horiau agor i dderbyn eu dos cyntaf o'r brechiad. Nodwch os gwelwch yn dda, bod yn rhaid i blant dan 16 mlwydd oed gael eu hebrwng gan oedolyn/warchodwr. **MAE HYN YN BERTHNASOL AR GYFER DOSAU CYNTAF YN UNIG**

Rwy'n fyfyrwr sydd adref o'r Brifysgol am yr wythnosau nesaf, a dw i'n gymwys ar gyfer fy mrechriad Atgyfnerthu- beth sydd angen i mi ei wneud?

Os ydych wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu yn ardal eich prifysgol, neu os ydych wedi derbyn eich brechiadau blaenorol mewn mannau eraill tra yn y Brifysgol ac nad ydych i fod i ddychwelyd i'r Brifysgol yn ystod yr wythnosau nesaf, llenwch [y ffurflen](#) hon.

Cyngor newydd ar frechu i blant a phobl ifanc gan y JCVI

Bydd plant 5 i 11 oed, sydd mewn grŵp risg clinigol neu sy'n gyswllt cartref â rhywun (o unrhyw oedran) sydd yn imiwnoataliedig, yn cael cynnig cwrs brechu sylfaenol. Mae gwaith ar y gweill i adnabod preswylwyr o fewn y grŵp hwn a byddwch yn derbyn llythyr i fynychu'r clinig erbyn diwedd mis Ionawr.

Brechiadau Atgyfnerthu

Mae'r JCVI wedi dweud y dylid cynnig brechiadau atgyfnerthu i bobl 16 i 17 oed; 12 i 15 sydd mewn grŵp risg clinigol neu sy'n gyswllt cartref â rhywun (o unrhyw oedran) sy'n imiwnoataliedig; a 12 i 15 oed sydd ag imiwnedd difrifol ac sydd wedi cael trydydd dos sylfaenol. Anfonir llythyrau apwyntiadau yn y post pan fydd grwpiau'n gymwys.

<https://www.gov.uk/government/news/jcvi-issues-new-vaccination-advice-for-children-and-young-people>

Mae Gwybodaeth ynghylch Pas Covid y GIG ar gael yn
<https://gov.wales/get-your-nhs-covid-pass#section70608>
Neu drwy ffonio 0300 303 5667

Am ragor o wybodaeth ynghylch y Brechiad Covid-19, ewch i:
<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid19-vaccine/>

Gwybodaeth ynghylch y Brechiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:
<https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/>



Efallai y bydd rhaid ciwio yn ein Canolfannau Brechu Torfol oherwydd y nifer fawr o bobl sy'n dod drwy ein drysau - ymddiheurwn am unrhyw oedi, ond byddwch yn amyneddgar a gwisgwch ar gyfer tywydd oer rhag ofn bod gofyn i chi ddisgwyl y tu allan.